

Modelau darparu amgen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus: cynllun gweithredu ar gyfer ymgynghori

Ionawr 2016

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Cyflwyniad

Mae UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru) yn un o brif undebau addysg Cymru. Mae'n cynrychioli 5,000 o athrawon, penaethiaid a darlithwyr ym mhob sector addysg yng Nghymru.

Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Lywodraeth Cymru ar fodelau darparu amgen ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

1. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dull cyffredinol o ran modelau darparu amgen a nodir yn y Cynllun Gweithredu drafft?

- 1.1. Mae UCAC, fel Llywodraeth Cymru, o'r farn mai cyrff cyhoeddus ddylai fod yn darparu gwasanaethau cyhoeddus ble bynnag posib. Mae nifer o resymau dros hynny, gan gynnwys atebolrwydd cyhoeddus, tryloywder prosesau cyhoeddus, a'r gallu i roi blaenoriaeth i'r gwasanaeth a'i ddefnyddwyr yn hytrach na chreu elw.
- 1.2. Croesawn felly'r pwyslais ar y ffaith na ddylid ystyried modelau amgen "dim ond fel dewis yn lle dirwyn gwasanaethau i ben neu eu preifateiddio, fel yr opsiwn 'lleiaf gwael'." Rhaid gochel rhag rhuthro i'r cyfeiriad hwn, a chredwn fod y Cynllun Gweithredu drafft yn gwneud hynny'n glir.
- 1.3. Cytunwn yn gryf â'r tri rhag-amod.
- 1.4. Noda UCAC y pwyslais ar gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol. Cytunwn mai gwell mewn egwyddor yw cwmnïau o'r fath, ym maes gwasanaethau cyhoeddus, na chwmnïau preifat er elw. Fodd bynnag, teimlwn ei fod yn briodol i nodi bod angen yr un lefel o ofal, a'r un sylw at gamau diogelu, gyda'r cwmnïau hyn â chwmnïau mwy masnachol.

2. Ydych chi'n cytuno y dylai'r Cynllun Gweithredu gynnwys egwyddorion i roi arweiniad wrth fabwysiadu modelau darparu amgen?

- 2.1. Cytunwn ei fod yn fuddiol i gynnwys egwyddorion er mwyn ceisio sicrhau cysondeb yn y dulliau gweithredu ledled Cymru, ac i sicrhau rhai gwerthoedd craidd.

3. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr egwyddorion drafft a nodir yn adran 4 o'r Cynllun Gweithredu?

- 3.1. Cytunwn yn gyffredinol â'r egwyddorion drafft yn adran 4. Maent yn nodi'r prif werthoedd ac egwyddorion sylfaenol yn gryno ac yn glir.

4. Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a nodwyd yn adran 5 o'r Cynllun Gweithredu?

- 4.1. Mae'r camau gweithredu'n nodi cryn dipyn o gefnogaeth i gyrff wrth ymchwilio i'r posibilïadau o fodelau amgen.
- 4.2. Rydym am ganolbwyntio yn yr ymateb hwn ar un o'r camau gweithredu'n benodol, sef yr un sy'n ymwneud ag athrawon cyflenwi.
- 4.3. Cytunwn yn llwyr bod angen 'Parhau i ystyried opsiynau ar gyfer modelau darparu amgen i ddarparu athrawon cyflenwi' oherwydd mae'r system ar hyn o bryd yn amddifadu athrawon cymwys o'u tâl ac amodau gwaith statudol, ac yn sugno arian ar lefel aruthrol o'r system addysg i goffrau cwmnïau preifat er elw. Mae pryderon, yn ogystal ynghylch sgil effeithiau'r system bresennol ar safonau addysgol¹.
- 4.4. Rhaid tynnu sylw at y ffaith, yn achos athrawon cyflenwi, bod y broses o breifateiddio eisoes wedi digwydd i raddau helaeth iawn. Prin fod unrhyw Awdurdod Lleol yn cadw rhestr o athrawon gyflenwi bellach, heb sôn am weithredu pwll. Mae asiantaethau wedi llenwi'r bwch dros y blynyddoedd diwethaf - a hynny gydag anogaeth Llywodraeth Cymru sydd wedi rhoi Cytundeb Fframwaith Darparwr

¹ 'Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon', Swyddfa Archwilio Cymru, Medi 2013
'Effaith absenoldeb athrawon', Estyn, Medi 2013
'Ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi', Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rhagfyr 2015

Gwasanaeth a Reolir i un cwmni'n benodol, sef New Directions. Mae'r cytundeb hwn yn para am dair blynedd ac mae anogaeth gref iawn ar bob Awdurdod Lleol a phob ysgol i ddefnyddio'r cwmni penodol hwn.

- 4.5. Mae'r hyn sydd wedi digwydd eisoes, fel y disgrifiwyd yn y paragraff uchod, yn torri pob un o'r 3 rhag-amod yn y Cynllun Gweithredu, a bron a bod pob un o'r egwyddorion drafft. Er bod yr asiantaethau'n cadw costau'n isel ar gyfer Awdurdodau Lleol ac ysgolion, maent yn gwneud hynny ar draul tâl ac amodau gwaith statudol athrawon, ac yn creu grŵp o athrawon 'ail ddsbarth'. Heblaw am dâl sylweddol is, nid ydynt ar y cyfan yn derbyn tâl gwyliau na salwch (na phremiwm ar eu tâl dyddiol i gymryd hyn i ystyriaeth), cyfraniadau at eu pensiwn, a phrin iawn yw'r cyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol.
- 4.6. Nid yw'r ddogfen *Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol*, sy'n cael ei grybwyll yn y Cynllun Gweithredu, yn mynd i'r afael yn ddigonol a materion pwysig yn ymwneud a sefyllfa athrawon cyflenwi. I'r gwrthwyneb, mae'n gwneud popeth i annog Awdurdodau Lleol ac ysgolion i ddefnyddio asiantaeth.
- 4.7. Rhaid bod yn glir felly beth yw pwynt cychwyn yn drafodaeth mewn perthynas ag athrawon cyflenwi.
- 4.8. Mae'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (DdCAAY / STPCD) yn amlinellu'n glir beth ddylai cyflog ac amodau gwaith athrawon cyflenwi sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan Awdurdod Lleol neu ysgol a gynhelir fod. Mae'n bwysig nodi mai dim ond trwy gael eu cyflogi ar y telerau hyn y mae modd i athrawon gael mynediad at y Cynllun Pensiwn Athrawon.
- 4.9. Nid yw'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol yn pennu telerau ar gyfer athrawon nad ydynt yn uniongyrchol gyflogedig gan Awdurdod Lleol neu ysgol a gynhelir. Nid oes gan athrawon a gyflogir gan asiantaeth yr amddiffynfa sydd wedi bod gan athrawon eraill.
- 4.10. Mae UCAC yn gadarn o'r farn y byddai modd dod â'r system o athrawon cyflenwi nôl i ddwylo'r gwasanaethau cyhoeddus. Byddai system gyhoeddus o'r fath yn golygu bod gan yr athrawon dan sylw fynediad at eu tâl ac amodau gwaith statudol dan Adran 44.1 o'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol. Mi fyddai'r athrawon yn dod dan systemau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Safonau Proffesiynol, Rheoli Perfformiad, Hyfforddiant Mewn Swydd, y Fargen Newydd ac ati. Yn fyr, mi fydden yn athrawon dan yr un amodau ag unrhyw athrawon eraill yng Nghymru, ac mi fyddai'r disgwyliadau yr un mor uchel, a'r amodau'n gydradd ac yn deg.
- 4.11. Gyda'r defnydd o system ar-lein - a hynny'n fuddsoddiad ar lefel genedlaethol er mwyn creu darbodion maint - dadleuwn y byddai modd rhedeg system gyhoeddus, effeithiol, effeithlon. Gallai system o'r fath weithio ar lefel genedlaethol, er enghraifft dan awenau Cyngor y Gweithlu Addysg, neu ar lefel rhanbarthol dan awenau'r consortia. Byddai'r system yn awtomatig i raddau helaeth, gydag athrawon eu hunain yn sicrhau bod eu manylion yn gyfredol, ac ysgolion yn gallu bwcio ar-lein. Ni fyddai angen swyddfa llawn pobl i'w weithredu.
- 4.12. Ni fyddai UCAC yn gwrthwynebu ymchwilio i bosibilrwydd sefydlu cwmni cydweithredol neu gydfuddiannol ar gyfer athrawon cyflenwi. Fodd bynnag, wrth gadw'r ail rhag-amod mewn golwg ('Gwarchod telerau ac amodau cyflogeion') byddai angen cymryd telearu'r DdCAAY fel pwynt cychwyn, ac nid yr hyn sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd gan yr asiantaethau.
- 4.13. Mae gan UCAC bryder na fyddai modd, dan y drefn bresennol, i gwmni cydweithredol neu gydfuddiannol gynnig telerau ac amodau gwaith y DdCAAY.
- 4.14. Nodwn i gloi, mai ffug-arbediad yw'r un a wneir drwy asiantaethau – neu unrhyw gorff arall nad yw'n rhoi mynediad i dâl ac amodau gwaith statudol athrawon. Mae'n wireb i ddweud bod systemau addysg o safon uchel yn llwyr ddibynnol ar athrawon o safon uchel; buddsoddi yn y gweithlu drwy gynnig amodau teg yw'r buddsoddiad gorau mewn gwasanaethau cyhoeddus ac mewn cynnal a chodi safonau. Pwyswn ar Lywodraeth Cymru i gymryd hynny i ystyriaeth wrth ystyried modelau amgen o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Rebecca Williams
Ionawr 2016



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

[f facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)

www.ucac.cymru